# BWLETIN GWANWYN '26



## Croeso i rifyn y gwanwyn o newyddlen Menter Iaith Sir Ddinbych

Gyda'r tywydd braf ar droed, mae tymor y gwanwyn wedi cyrraedd o'r diwedd. Bu dechrau prysur i'r tymor wrth ddathlu dydd Gŵyl Dewi ac addurno ffenestri busnesau trefi ein sir. Mae llawer o weithgareddau cyffrous wedi'u cynnal yn ystod y chwarter hwn felly ewch i ferwi'r tegell a mwynhewch flas ar y darllen.

## Cynnwys


1. Uchafbwyntiau Cerddorol
2. Plant, Pobl ifanc a Theuluoedd
3. Sesiynau'r Dysgwyr
4. Hyrwyddo Digwyddiadau'r Gwanwyn
5. Y Fenter a Gwirfoddolwyr
6. Cysylltu â ni


Menter Iaith Sir Ddinbych




# UCHAFBWYNTIAU CERDDOROL

## Gig Lleuwen yng Ngwesty Owain Glyndŵr

Cafwyd noson wefreiddiol yng Ngwesty Owain Glyndŵr fis Chwefror yng nghwmni Lleuwen a Melda Lois. Canodd Lleuwen gymysgedd o ganeuon newydd a'r hen ffefrynnau ac roedd set Melda Lois yn gweddu'n berffaith i awyrgylch y noson. Dyma artist ifanc sy'n datblygu ac edrychwn ymlaen i glywed mwy ganddi i'r dyfodol.




Diolch yn fawr am y gefnogaeth a braf oedd gweld ystafell orlawn yn y Gwesty. Byddai cynnal gig eto yng Ngwesty Owain Glyndŵr yn bleser.



Erin o'r Fenter a Lleuwen Steffan



Daf Morris, Lleuwen, Melda Lois ac Erin



Mwynhau gwrando ar Melda Lois



# PLANT, POBL IFANC A THEULUOEDD

## Gweithdy cerddoriaeth gyda disgyblion Ysgol Dinas Brân

I ddathlu Dydd Miwsig Cymru, cafwyd gweithdy cerddoriaeth dan ofal Osian Williams yn Ysgol Dinas Brân. Roedd yn weithdy hwyliog a chafodd y disgyblion gyfle i gyfansoddi geiriau a cherddoriaeth gydag Osian tra bo rhai wedi cael y cyfle i jamio gyda'r dyn ei hun – am brofiad gwych iddynt! Roedd yn gyfle arbennig i'r bobl ifanc gael dathlu Dydd Miwsig Cymru mewn steil! Diolch i Osian am ddod draw ac am gefnogaeth y Cyngor Tref. Roedd hi'n braf hefyd cael cydweithio ag Adran Gerdd yr ysgol.



Osian a'r disgyblion

## Cwis Dim Clem

Mae Cwis Dim Clem 25/26 bellach wedi'i gwblhau. Diolch i'r holl ysgolion a fu'n cystadlu'n frwd yn sirol. Llongyfarchiadau i griw FAST o Ysgol Pen Barras a gipiodd y drydedd wobr yn genedlaethol. Diolch i Mari Lovgreen am gyflwyno'r cwis dros Teams ac i Fenter Iaith Sir Benfro am gydlynu'r cwis.



Tîm FAST, Ysgol Pen Barras

Rhaid hefyd llongyfarch Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd am lwyddo i ddod yn drydydd yn Rownd Rhanbarthol Gogledd Cymru. Edrychwn ymlaen at fwrlwm sirol y cwis eto'r flwyddyn nesaf.

# Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi, Dinbych

Bu bwrlwm ar hyd strydoedd tref Dinbych eto eleni wrth i dros 700 o blant ymuno yn nathliadau Dydd Gŵyl Dewi diolch i waith Menter Iaith Sir Ddinbych, Cyngor Tref Dinbych a'u partneriaid. Yn arwain yr orymdaith a sicrhau diogelwch pawb roedd swyddogion Heddlu Gogledd Cymru gyda dau gwnstabl ifanc 'Heddlu Bach' o Ysgol Pendref yn cefnogi'r swyddogion yn eu gwaith.

Roedd hi'n braf gweld trigolion a busnesau'r dref allan ar y strydoedd yn cefnogi a mwynhau'r dathliadau wrth i blant, staff, stiwardiaid a gwirfoddolwyr gerdded i gyfeiliant cerddoriaeth Gymraeg. Er gwaetha'r glaw, roedd Sgwâr y Goron o dan ei sang a chafodd y 15 ysgol o ddalgylch Dinbych groeso cynnes gan y cyflwynydd radio, Owain Llŷr. Diolch yn fawr i bawb.



Gorymdeithio drwy stryd Dinbych


Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru


Disgyblion yn mwynhau'r bwrlwm

# Cystadleuaeth Ffenestri Dydd Gŵyl Dewi

Roedd ffenestri siopau trefi ledled y sir yn werth eu gweld ar ddiwrnod cenedlaethol ein nawddsant eleni. Bu'r busnesau yn brysur yn addurno a chafwyd dros 40 o siopau yn cystadlu a nifer yn addurno! Diolch yn fawr i Gyngor Tref Dinbych, Cyngor Tref Llangollen, Cyngor Tref Llanelwy a Chyngor Tref Rhuthun am gefnogi. Mae rhestr o'r enillwyr ar ein gwefan.


Ty Gwyrdd, Dinbych



Handmade, Llangollen


Reebes, Dinbych

# Taith Wanwyn Magi Ann

Mae Magi Ann, sy'n un o hoff gymeriadau plant bach Cymru, wedi cael pythefnos hynod o brysur ym mis Mawrth ar ôl bod ar daith yng nghwmni criwiau newydd.

Bu'n crwydro'r sir ar Daith Wanwyn yn canu, dawnsio ac yn darllen storïau yng nghwmni criwiau newydd o blant bach. Dyma oedd tro cyntaf i nifer o blant bach ysgolion cynradd a meithrinfeydd y sir gwrdd â Magi Ann ac roedd eu hymateb yn fendigedig! Cafodd dros 200 o blant gyfle i chwerthin a mwynhau yn ei chwmni gan ddod i adnabod ffrindiau Magi Ann yn well.

Roedd darllen ambell stori at ddant nifer. Diolch yn fawr i Ysgol Pant Pastynog, Ysgol Bro Dyfrdwy, Ysgol Pen Barras, Ysgol Bro Cinmeirch, Miri Meithrin a Little Explorers am eu cefnogaeth. Bellach mae Magi Ann yn cael seibiant haeddiannol.



Magi Ann yn Ysgol Pant Pastynog



Magi Ann yn Ysgol Bro Dyfrdwy

# Gweithdy Gwehyddu Helyg yn y Gymraeg



Dros wyliau'r Pasg cafodd plant a theuluoedd gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy gwehyddu helyg dan ofal Eirian Muse. Dyma weithdy poblogaidd oedd yn rhoi cyfle i'r cyfranwyr ddysgu sgil newydd wrth ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch hamddenol a chartrefol yn yr Hen Lys, Rhuthun. Roedd creadigrwydd naturiol plant a theuluoedd Rhuthun ar ei orau a chyfle i'r plant wehyddu amryw o siapiau gwahanol gydag ambell un yn mentro ar greu ceirw!

Diolch yn fawr i Eirian am gynnal gweithdy creadigol gwych a gobeithio cawn eich croesawu nôl i Sir Ddinbych yn fuan.

# Clwb Amser Cinio

Mae'n braf cael nodi bod y sesiynau amser cinio yn ysgolion uwchradd y sir yn mynd o nerth i nerth a sesiynau bellach wedi ail-gychwyn yn Ysgol Glan Clwyd eto mewn cydweithrediad â'r Urdd. Caiff y sesiynau eu cynnal yn wythnosol gyda'r nod o gynnal gweithgareddau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Dwylo Bach, Hwb Rhuddlan

Cafwyd sesiwn beilot cyntaf Dwylo Bach yn Hwb Rhuddlan ddiwedd mis Ebrill. Dyma sesiynau chwarae creadigol synhwyraidd ar gyfer plant a babanod a braf oedd cael croesawu teuluoedd i'r sesiwn.

Bydd y sesiwn nesaf yn cael ei chynnal 14 Mai a chroeso i deuluoedd newydd. Diolch yn fawr i Bwyllgor Cymraeg Rhuddlan am gefnogi.

# SESIYNAU'R DYSGWYR



# Paned a Sgwrs

Mae sesiynau Paned a Sgyrsiau ledled y sir yn parhau i ffynnu a diolch yn fawr i'r holl diwtoriaid a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddiflino.

Braf yw nodi bydd Paned a Sgwrs (ar ôl gwaith) yn cychwyn yn Rhuddlan yn fuan. Diolch i Eryl ein swyddog am drefnu.



Paned a Sgwrs Tremeirchion

# Taith Dywysedig o amgylch Llangollen

Bu criw o ddysgwyr brwdfrydig ar daith dywys yn Llangollen fis Chwefror o dan arweiniad y tywysydd profiadol Medwyn Williams. Dyma gyfle i'r criw grwydro'r dref, dod i adnabod safleoedd Llangollen yn well a'r cyfan drwy siarad ac ymarfer eu Cymraeg. Roedd cael paned ar y diwedd yn uchafbwynt i'r cyfan yn Nhafarn Gales. Diolch i Gyngor Tref Llangollen am gefnogi.

# Taith gerdded Glyndyfrdwy

Dyma'r daith gyntaf o nifer o deithiau cerdded yn ne Sir Ddinbych lle bydd cyfle i ddysgwyr ddod i adnabod eu cynefin yn well dan ofal arweinwyr profiadol.

Arfon Hughes oedd arweinydd y daith gyntaf a bu'r cylchdro hamddenol o amgylch Glyndyfrdwy yn gyfle i'r cerddwyr ddysgu am hanes Owain Glyndŵr, gweld safleoedd tomenni mwnt a beili a chyfle i ymarfer eu Cymraeg. Roedd y tywydd yn fendigedig a gyda 7 o siaradwyr newydd y Gymraeg yn bresennol cafwyd amser bendigedig. Bu'r baned yn Neuadd Glyndyfrdwy ar ddiwedd y daith yn hyfryd gyda chyfle i'r siaradwyr newydd ddod i adnabod ei gilydd yn well.

Diolch yn fawr i Bartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych am gefnogi ac edrychwn ymlaen at y daith nesaf ddiwedd y mis hwn.



Cerddwyr yn barod



Parhau i ddringo





Neuadd Bentref Glyndyfrdwy

# Taith Dywys Cymraeg yn y Coed

Braf nodi bod teithiau tywys Cymraeg yn y Coed yn ôl ar gyfer y Gwanwyn. Roedd y daith gyntaf yn Loggerheads ddiwedd mis Ebrill yn hynod lwyddiannus a braf yw gallu cydweithio gyda Menter Iaith Fflint a Wrecsam a Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

# Digwyddiadau Paned a Sgwrs yn y sir
























# Llais Prestatyn

## Noson Bingo!

Yng Nghlwb Golff Sant Melyd, cafwyd noson Bingo hwyliog gyda chydbwysedd da o siaradwyr rhugl a siaradwyr newydd y Gymraeg yno; gyda'r cyfranwr ieuengaf yn 12 a'r hynaf yn 70! Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ac edrychwn ymlaen at weithgaredd nesaf Llais Prestatyn.

## Dro a Sgwrs

Cafwyd cylchdaith hamddenol trwy goed y Morfa penwythnos cyntaf Mai gyda phaned groesawgar yn y Ganolfan Hamdden cyn dychwelyd ar hyd llwybr yr hen reilffordd. Diolch yn fawr i'r gwirfoddolwyr.

LLAIS PRESTATYN

# Eisteddfod Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain

Braf oedd cael cefnogi Eisteddfod Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain ar y cyd gyda Menter Iaith Fflint a Wrecsam. Roedd hi'n ddiwrnod arbennig i ddathlu creadigrwydd, gweld perfformiadau amrywiol a chlywed yr iaith yn fyw ym Marchnad y Frenhines, Y Rhyl. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gystadlodd - mae modd gweld rhestr o'r canlyniadau ar gyfryngau Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain.

Diolch i Ganolfan Dysgu Cymraeg y Gogledd Ddwyrain a Popeth Cymraeg am y gwahoddiad.




Iorwen yn cynrychioli'r Fenter yn yr Eisteddfod

# Say it in Cymraeg...

## SAY IT IN CYMRAEG...

### Dydd Gŵyl Dewi

| Saesneg | Cymraeg | Pronounce |
|---|---|---|
| Happy Saint David's Day | Dydd Gŵyl Dewi Hapus | Deeth Gooel Dehwee Ha-pis |
| Patron Saint | Nawddsant | Naooth-sant |
| Saint David | Dewi Sant | Dehwee Sant |
| Leek | Cennin | Keh-nin |
| Daffodil | Cennin Pedr | Keh-nin Peh-dr |
| Flag | Baner | Ban-er |
| Wales | Cymru | Come-ree |
| Cawl (Welsh dish) | Cawl / Lobsgows | Kaool / Lob-sgouse |
| Welsh Cake | Pice Bach / Cacen Gri | Pee-keh Bach / Kah-ken gree |
| March the 1st | Mawrth y cyntaf | Mowrth uh kun-tav |

CYMRAEG Byw Dysgu Mwynhau — Menter Iaith Sir Ddinbych

## SAY IT IN CYMRAEG...

### Dathlu'r Pasg

| Saesneg | Cymraeg | Pronounce |
|---|---|---|
| Happy Easter | Pasg Hapus | Pask Hap-is |
| Easter Sunday | Sul y Pasg | Seal uh Pask |
| Easter egg | Ŵy Pasg | Ooee Pask |
| Lent | Y Grawys | Grah-ooees |
| Hunt | Helfa | Hell-vah |
| Lamb | Oen | Oh-en |
| Good Friday | Gwener y Groglith | Gweh-ner uh Grog-leeth |
| Chick | Cyw | Kew |
| Spring | Gwanwyn | Gwan-win |
| Cross | Croes | Kro-iss |
| Sacrifice | Aberth | Ab-erth |

CYMRAEG Byw Dysgu Mwynhau — Menter Iaith Sir Ddinbych

## SAY IT IN CYMRAEG...

### Amser Parti!

| Saesneg | Cymraeg | Pronounce |
|---|---|---|
| Party | Parti | Par-ti |
| Celebrations | Dathlu | Dahth-lee |
| Music | Cerddoriaeth | Care-tho-ree-eye-th |
| Silent Disco | Disgo Tawel | Dis-go Tow-el |
| To dance | Dawnsio | Down-sho |
| To enjoy | Mwynhau | Mwyn-hau |
| Happy Birthday | Pen-blwydd hapus | Pen-bloo-ith Hap-iss |
| Cake | Cacen | Ka-ken |
| Balloons | Balwnau | Bal-oo-nau |
| Present | Anrheg | Ann-rheg |
| Fun | Hwyl | Hoo-eel |

CYMRAEG Byw Dysgu Mwynhau — Menter Iaith Sir Ddinbych

## SAY IT IN CYMRAEG...

### Sul y Mamau

| Saesneg | Cymraeg | Pronounce |
|---|---|---|
| Happy Mother's day | Sul y Mamau Hapus | Seel uh Mam-eye Hap-iss |
| Someone special | Person arbennig | Pehr-son ar-ben-ig |
| To appreciate | Gwerthfawrogi | Gwerth-vow -rog-ee |
| Card | Cerdyn | Kehr-din |
| Thank you for everything | Diolch am bopeth | Deeolch am bop-eth |
| Hug | Cwtsh | Kootch |
| Flowers | Blodau | Blod-eye |
| To miss | Methu | Meth-thee |

*Mam fach annwyl*
*Mam fach fi*
*Fi bia Mam*
*A Mam bia fi*

CYMRAEG Byw Dysgu Mwynhau — Menter Iaith Sir Ddinbych

# HYRWYDDO DIGWYDDIADAU CYMRAEG Y GWANWYN

Beth sydd ymlaen yn y Gymraeg yn Sir Ddinbych yn ystod y gwanwyn?

Dyma hyrwyddo digwyddiadau nesaf yn ein calendr, yn ogystal ag ambell ddigwyddiad yn y sir.

Cofiwch hefyd bod ein calendr ar ein gwefan yn fyw ac yn cael ei ddiweddaru'n gyson!

Calendr Digwyddiadau Cymraeg



















# Y FENTER A GWIRFODDOLWYR

## Wythnos Elusennau Cymru

Bu Wythnos Elusennau Cymru rhwng 9 – 13 o Chwefror, a bu'r Fenter yn brysur yn hyrwyddo'r Gymraeg ledled y sir mewn digwyddiadau amrywiol o gyfarfodydd i sesiynau'r dysgwyr, o gefnogi elusennau eraill i baratoi ar gyfer trefniadau Gorymdaith a Chystadleuaeth Ffenestri Dydd Gŵyl Dewi.

Yn ôl Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych, mae'r "gwaith rydyn ni'n ei wneud, fel elusen, yn amrywiol iawn, ac yn aml, mae pobl yn anghofio mai elusen gofrestredig ydy'r Fenter Iaith ei hun.

"Rydyn ni'n falch iawn ein bod wedi ein cymeradwyo gyda marc safon NCVO Elusen Ddibynadwy. Fel tîm bychan o staff rydyn ni'n ddibynnol iawn ar wirfoddolwyr ac mae sicrhau ein bod yn cynnal safon yn ein gwaith fel elusen, yn hollbwysig."

Yn ôl Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Fenter, Bethan Cartwright, "Rydym yn ddiolchgar i'n prif arianwyr a'n partneriaid am ymddiried ynom i gyflawni ein gwaith o gynnig cyfleoedd i drigolion Sir Ddinbych fwynhau byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddai modd i ni gyflawni'r rôl honno heb ein staff diwyd a'r gwirfoddolwyr sy'n cydweithio â ni fel aelodau Bwrdd, cyfranwyr a chefnogwyr mewn digwyddiadau. Diolch o galon iddynt."

## Gwirfoddolwyr

Diolch i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi bod yn weithgar dros fisoedd y gwanwyn yn cynnal a chefnogi gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg ledled y Sir. Mae criw da o wirfoddolwyr wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr Cymraeg yn Nantglyn i gefnogi Paned a Sgwrs ar trydydd bore Sadwrn bob mis.




Criw Paned a Sgwrs Nantglyn

Yr un yw'r sefyllfa gyda'r criwiau sy'n cefnogi dysgwyr yn Nyserth, Corwen a Thremeirchion yn fisol - ac mae'r galw am weithgareddau fel hyn yn parhau i gynyddu! Braf hefyd oedd cefnogi gwirfoddolwyr Theatr Twm o'r Nant yn ystod y gwanwyn wrth iddynt roi llwyfan i berfformiadau Ledi'r Wyrcws gan Jerry Hunter, a Waldo gan Mewn Cymeriad - a thrwy ein cydweithio fe werthwyd pob

tocyn. Edrychwn ymlaen at gefnogi'r criw yno eto ddechrau Mehefin wrth iddynt groesawu Bara Caws gyda pherfformiad o Ar Geinioga.

Diolch hefyd i griw Llais Presatyn am eu hymddroddiad yn parhau i gynllunio a chynnal digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol. Edrychwn ymlaen at yr haf!

# Dathlu Isaac Roberts



Cyhoeddwyd y newydd da ddiwedd Mawrth fod cais i'r Gymdeithas Frenhinol i ariannu Prosiect Gwyddoniaeth i glodfori'r Astroffotograffydd Issac Roberts ar y cyd mewn partneriaeth ag Amgueddfa Dinbych a Chymdeithas Seryddol Llandyrnog a Gwaddol Rhydgaled wedi'i gymeradwyo.

Bydd y prosiect yn cynnwys amrywiaeth o ddigwyddiadau o weithdai i blant a phobl ifanc i adeiladu replica o delesgop Isaac Roberts, o sgyrsiau am seryddiaeth ac astroffotograffiaeth i arddangosfeydd.

Rydym yn falch iawn o gefnogi'r prosiect a fydd yn y pen draw yn arwain at ddathlu 200 mlynedd geni Isaac Roberts a anwyd ar fferm Groes Bach ger Dinbych.

# Cyfarfod Cyhoeddus Nantglyn

Yn dilyn cyfarfod ym Mawrth, penderfynwyd sefydlu pwyllgor ardal yn Nantglyn a'r cylch i gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg a chymreig ei natur yn yr ardal. Gyda'r sesiynau Paned a Sgwrs misol yn mynd o nerth i nerth, edrychwn ymlaen i weld beth arall sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf yn ardal Nantglyn.

# CYSYLLTU Â NI

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein digwyddiadau a chofiwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol am ddiweddariadau cyson.

Facebook

Instagram

Tik Tok

X

01745 812 822

Dyma ein gwefan am wybodaeth pellach - dolengwefan

**Menter Iaith Sir Ddinbych**

Y Farchnad Fenyn

Llain y Capel

Dinbych, LL16 3TU